**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA-L/JM/0246/20

Llŷr Grufydd AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid

11 Chwefror 2020

Annwyl Llŷr,

Hoffwn ddiolch unwaith eto i aelodau'r Pwyllgor Cyllid a roddodd o'u hamser a'u harbenigedd i graffu ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn ystod taith lwyddiannus y Bil drwy'r Senedd.

Rwyf wedi bod yn gwbl ymrwymedig i ddarparu, mor gywir â phosibl, yr amcangyfrifon gorau o'r costau sy'n gysylltiedig â'r Bil. Cyn cyflwyno'r Bil, aethom ati i archwilio data a gyhoeddwyd yn y DU ac yn rhyngwladol ac rydym wedi gweithio'n ddiwyd gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys rhanddeiliaid o wledydd eraill sydd wedi cyflwyno deddfwriaeth debyg. Hyd y gwn i, nid oes yr un genedl arall wedi gwneud cymaint i bennu'r effaith neu'r gost bosibl cyn deddfu i wahardd cosbi plant yn gorfforol.

Yn dilyn argymhellion gan eich Pwyllgor, roeddwn yn falch o allu rhoi rhagor o fanylion yn y Memorandwm Esboniadol a osodwyd gerbron y Senedd ym mis Ionawr. Roedd hyn yn cynnwys darparu amcangyfrifon gorau ar gyfer costau nad oedd yn hysbys o'r blaen. Mae hyn wedi bod yn bosibl o ganlyniad i'r gwaith caled sy'n cael ei wneud gan a chyda ein partneriaid drwy ein grwpiau gweithredu.

Fel y noda'r Pwyllgor yn eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr, mae llawer o'r costau ychwanegol a amlinellir yn y diweddariad o'r Memorandwm Esboniadol wedi codi oherwydd ein bod wedi derbyn yr argymhellion a wnaed yn Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid neu drwy ystyried materion a godwyd yn ystod gwaith y Senedd o graffu ar y Bil.

Gallaf eich sicrhau ein bod yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy ein grwpiau gweithredu, i gynllunio'r dull mwyaf effeithiol ac effeithlon o gasglu data a monitro effaith y ddeddfwriaeth ar wasanaethau a sefydliadau perthnasol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nodwn eich pwynt o ran amseru’r Penderfyniad Ariannol ar gyfer Biliau, gan y gall y costau gynyddu'n sylweddol yn ddiweddarach o ganlyniad i ddiwygio Bil (diwygiadau llywodraethol ac anllywodraethol). Fel y sylweddolwch, mae'r amseru wedi'i nodi yn y Rheolau Sefydlog, felly nid yw'n fater y gall Llywodraeth Cymru ei newid.

Diolch i chi unwaith eto am y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor. Byddaf yn parhau i roi gwybod i'r Senedd am waith y Grŵp Gweithredu Strategol, gan gynnwys unrhyw wybodaeth bellach am gostau posibl.

yn gywir

**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services